PROSIECT:

# GWELLA'R AMGYLCHEDD A RHEOLAETH YMWELWYR: NANTCLWYD Y DRE, RHUTHUN

YMGEISYDD: **CYNGOR SIR DDINBYCH**

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**208**

LLLEOLIAD
**RHUTHUN, SIR DDINBYCH**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£10,862.70**



## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

## Y PROSIECT

Mae Nantclwyd y Dre yn adeilad rhestredig Gradd 1 – y plasty trefol ffrâm bren hynaf yng Nghymru. Roedd angen gwelliannau sylweddol i'r adeilad er mwyn ei wneud yn lle brafiach i ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Roedd angen gwella gardd y gegin i'w hadfer, ei sefydlogi, a hyrwyddo tyfiant llysiau a blodau. Ac fe wnaed hynny gan ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy.

Roedd adran treftadaeth Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn awyddus i ddenu mwy o ymwelwyr i'r atyniad hanesyddol hwn.




## NODAU'R PROSIECT

Un o brif nodau'r prosiect oedd gwneud Nantclwyd y Dre'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir. Canolbwyntiodd Cyngor Sir Ddinbych ar benodi contractwyr lleol, a anogwyd i ddefnyddio adnoddau o Ogledd Cymru.

I atgyfnerthu gwaith y tîm garddio, ar safle sydd bron yn 600 oed, roedd angen dulliau a tŵls newydd i gefnogi'r gwaith hyfforddi a recriwtio.

Blaenoriaeth arall oedd cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r tŷ hynafol trwy osod camerâu a sgriniau arddangos bywyd gwyllt.

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES
CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

I wella ffiniau ardal y gegin yng Ngardd yr Arglwydd, defnyddiwyd peth o'r arian i osod ffens ddeniadol o goed castan. Bydd y ffens hon hefyd yn gwella ansawdd yr amgylchedd drwy ganiatáu gwell awyru i hybu tyfiant y planhigion.

O'r blaen roedd yno ffens o wiail cyll oedd wedi dirywio'n arw ac oedd yn rhwystro aer rhag llifo i'r gwelyau llysiau. Ac roedd hynny yn ei dro yn annog llwydni a phydredd ffwng.

Hefyd, roedd gardd y gegin yn serth iawn tua'r gwaelod fel bod y pridd yn tueddu i lithro i'r gwely blodau. I ddatrys y broblem, defnyddiodd tîm Cyngor Sir Ddinbych grant gan Gadwyn Clwyd i osod ymyl llechi i sefydlogi'r pridd.

Defnyddiwyd y grant hefyd ar gyfer:

- Llwyni, potiau plannu a thŵls newydd
- Meinciau
- Sied newydd
- Buddsoddi mewn camerâu dangos ystlumod, sgriniau rhyngweithiol, byrddau sialc ac arwyddion

Meddai Kate Thomson, rheolwr safle Nantclwyd y Dre: "Yn Ebrill 2023 cawsom 271 o ymwelwyr, sef tair gwaith yn fwy na'r un cyfnod y flwyddyn cynt.

"Nid yn unig y mae'r gwelliannau i ardd y gegin yn edrych yn hardd, maent hefyd yn diogelu atyniad sy'n rhan allweddol o brofiad yr ymwelydd."



*"RYDYM MOR DDIOLCHGAR I GADWYN CLWYD AM EU CEFNOGAETH. EIN NOD OEDD CYNYDDU NIFER YR YMWELWYR A GWELLA PROFIAD Y CYHOEDD, AC RYDYM WEDI LLWYDDO I WNEUD HYNNY GYDA'R ARIAN."*

*- KATE THOMSON*

## CANLYNIADAU

Gyda'i dechnoleg newydd, mae Nantclwyd y Dre yn awr yn medru cynnal digwyddiadau addysgiadol megis cerdded llwybrau a chynnal sgyrsiau am fywyd ystlumod.

Bydd y tŵls a'r planhigion newydd yn cefnogi ein gwaith hyfforddi a recriwtio er mwyn cynyddu maint y tîm o wirfoddolwyr sy'n edrych ar ôl y tir.

Ychwanegodd Kate: "Mae Gardd yr Arglwydd yn edrych yn wych, a'r gwelliannau fel y sied newydd a'r gwaith plannu wedi codi ysbryd ein gwirfoddolwyr. Maent yn ymfalchïo yn eu llwyddiant tra'n gweithio'n galed i gefnogi ein gwaith cadwraeth."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.*

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL | Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL | wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam | Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales